

Cyf: PED/dd

12^{fed} o Chwefror 2020

Annwyl riant/warcheidwad

Noson Opsiynau Blwyddyn 9


Gwahoddir chi yn gynnes i noson agored **nos Fercher, 26^{ain} o Chwefror 2020, am 4.00-5.30yh yn neuadd yr ysgol.**

Bydd y noson yn gyfle gwych i chi a'ch plentyn dderbyn gwybodaeth werthfawr am y pynciau opsiwn sydd ar gael i'ch plentyn ym Mlwyddyn 10. Yn ystod y noson, ceir cyflwyniad byr yn esbonio'r broses cyn cynnig i chi gylchdro o sesiynau gyda'r adrannau.

Er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r noson, trafodwch â'ch plentyn 3 opsiwn posibl byddai ef/hi'n dymuno dewis ym Mlwyddyn 10. Hefyd, efallai hoffech ystyried pynciau ychwanegol os ma'ch plentyn yn ansicr ynghylch ei opsiynau cychwynnol.

Gobeithiaf yn fawr y bydd y noson yn un buddiol i bawb, ac y bydd eich plentyn yn gallu gwneud penderfyniadau doeth ar gyfer y dyfodol.

Yr eiddoch yn gywir



Mr P Edwards
Pennaeth

